

Bydd y papur hwn yn archwilio'r manteision o ddarllen i blant yn y blynyddoedd cynnar, a bydd darpariad dadansoddiad myfyriol ar adrodd straeon gyda llyfrau, ac wrth ddefnyddio adnoddau digidol i blant. Bydd dadansoddiad o ddulliau a strategaethau i ddefnyddio wrth ddarllen i blant er mwyn hyrwyddo sgiliau iaith a llythrennedd, ac ymchwiliad mewn i ddamcaniaethau, ymchwil a thystiolaeth berthnasol.

Ymhellach, bydd dadansoddiad beirniadol ar yr ymarferwr adrodd straeon, yr effaith ar ddatblygiad llythrennedd plant, ar sgiliau academiaidd y gellir ei hyrwyddo trwy ddarllen.

Yn ychwanegol, bydd llythrennedd digidol yn cael ei archwilio, ar ddatblygiad o'r defnyddiad o adnoddau digidol mewn ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar yn cael eu dadansoddi.

Awgryma Whiting (2017), gall darllen i faban yn y groth chefnogi ymlyniadau emosiynol at enedigaeth gyda'r rhiant/gofalwr. Cydsyniodd Lariviere, Erdos a Ferdinand (2017) gyda'r datganiad hyn, ac ymhelaethodd ymhellach gan gyhoeddi perthynas positif rhwng profiadau llythrennedd cynnar a hyrwyddiad o iaith a sgiliau deallusol.

Fodd bynnag, dadleua Cline, Dimmit a Gann (2022) bod dim digon o dystiolaeth i gadarnhau'r manteision darllen yn ystod beichiogrwydd.

Dadleua Massaro (2017), wrth ddarllen storiâu yn weladwy i blant, mae'r manteision yn cynnwys geirfa gyfoethogoch a sylweddol i gymharu gyda lleferydd a gyfeirir gan y plentyn. Cydsyniodd Rabinowitz (2021) gyda'r farn hyn, gan ychwanegu'r hyrwyddiad o sgiliau cyfathrebu, twf iaith gynnar a'r datblygiad o empathi. Fodd bynnag, dadleua Swanson *et al.* (2011) bod straeon gyda chymorth digidol angen cwestiynu ychwanegol i hyrwyddo arferion gwell.

Ymhellach, dywed Furenes, Kucirkova a Bus (2021), bod digonedd o dystiolaeth i awgrymu bod plant yn fwy sylwgar i straeon digidol i gymharu â phapur, ac maent yn dadleu bod straeon digidol yn hyrwyddo dealltwriaeth darllen a dysgu geirfa newydd oherwydd amlgyfrwng gwell mewn straeon digidol. Cytuna Son *et al.* (2020) gyda'r farn hyn, gan ddatgan bod darluniau rhyngweithiol yn galluogi sgiliau amgyffrediad a chofio naratif o'r stori.

Noda'r National Literacy Trust (2020), wrth ddarllen i blant, maent yn gynnwys helaethrwydd o fuddion i'r plentyn, fel hyder, sicrwydd a diogelwch, cysur a hapusrwydd. Ategol i hyn, mae cysylltiad i ddamcaniaeth hierarchaeth anghenion Maslow (dyfynnwyd yn Pichère a Cadiat, 2015, p.4). Creda Maslow, bod model i ddiffinio'r anghenion sylfaenol plant, i'r anghenion mwy boddhaus.

Mae'r manteision nodwyd gan y National Literacy Trust o ddarllen i blant yn cysylltu gyda'r anghenion hierarchaeth Maslow, a nodir fel anghenion ffisiolegol (cwsig, aer, bwyd a dŵr), diogelwch (sicrwydd, iechyd, adnoddau), cariad a pherthyn (teulu, ymdeimlad o gysylltiad, cyfeillgarwch), parch (hyder, rhyddid, cydnabyddiaeth) a hunan wireddiad (dod y mwyaf gall rhywun fod) (Earthpen, 2022).

Ymhellach, datblygodd Bowlby (1969, p.194) damcaniaeth ymlyniad, a chreda bod ymddygiadau ymlyniad yn y blynyddoedd cynnar yn arddangos fel ceisio a chynnal agosrwydd tuag at unigolyn arall. Ymhellach, dywed Wilson-Ali a Knaus (2019) bod ansawdd o brofiadau cynnar hyn ac ymlyniad yn hollbwysig i ddatblygiad ymennydd y plentyn.

Cytuna Siegel (2020, p.167-171) gyda'r barnau hyn, gan ddatgan bod perthynasai ymlyniad gallu galluogi plant i leddfu a chreu hafan ddiogel, ac fel canlyniad, creu cysylltiadau dynol sy'n hyrwyddo cyfathrebiad rhwng y plentyn ar oedolyn.

Gwreiddio yn y Cwricwlwm i Gymru (*Llywodraeth Cymru*, 2021b), noda'r pwysigrwydd o ieithoedd a llythrennedd ar elfennau hollbwysig i gyfathrebiad. At hyn, datgan Estyn (dim dyddiad), bod llythrennedd yn sgil allweddol sy'n galluogi plant i gyfathrebu yn rhugl, yn berswadiol a gydwybodol.

Yn ychwanegol, noda Donaldson (2015, t.24) yn ei adroddiad bod angen i blant dysgu cymhwysedd digidol, a bod sgiliau digidol mor bwysig â llythrennedd a rhifedd.

Fodd bynnag, er bod y *Llywodraeth Cymru* (2017) yn ymdrechu i gyrraedd un mil o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, rhybuddia Senedd Cymru (2018) bod diffyg adnoddau Cymraeg ar gael i blant, a bod angen cynnydd o adnoddau amlieithog mewn ystod o fformatau i sicrhau dysgu effeithiol gan bob plentyn.

Yn ychwanegol, mae ystyriaeth wedi ei roi i modelu dylanwadol o ddarllen i datblygiad darllen, gan nodi'r oedran a chyfnod y plant arfaethedig. Yn ôl Frith (1985)

ac Ehri (2005), dylai plant rhwng yr oedran 5-7 dysgu ffonem a chyfatebiaeth graffeme, yr hwn a eilw Ehri y cyfnod cyfun.

Mae'r ymarferydd yn darllen straeon papur a digidol addas i grŵp o blant o'r oedran 5-6, gan ddilyn cam 2- wrth ddarllen, sy'n gynnwys medru darllen ysgrifen, defnyddiad o ddelweddau i helpu deall geiriau ac edrych am atebion i gwestiynau (Nazurty *et al.*, 2019).

Serch hynny, mae'r ymarferwyr wedi ystyried anghenion dysgu ychwanegol wrth ddewis y strategaethau darllen a ddefnyddiwyd, i sicrhau profiad dysgu cynwysedig.

Defnyddiwyd yr ymarferwyr arweiniad o McGraw (2022) i sicrhau cynhwysiad i blant o bob abled gan ddefnyddio strategaethau cefnogol, fel adrodd straeon llafar, llythrennedd digidol ac annog trafodaeth gyda'r plant yn ystod y straeon.

Datgan Maureen, van der Meij a de Jong (2018) bod llythrennedd digidol yn hyrwyddo sgiliau mathemategol a sgiliau digidol, ond dadleua bod gwybodaeth gyfyngedig ar effaith ar ddatblygiad llythrennedd. Ymhellach, cydsyniodd Belda-Medina (2022) gyda'r farn hyn, gan nodi bod tangynrychiolith mewn astudiaethau tuag at y buddion o lythrennedd.

Fodd bynnag, mewn astudiaeth gan Marble-Flint a Strattmana Schommer-Aikins (2021), sylwa bod cynnydd o ddealltwriaeth iaith a stori mewn plant ar y sbectrwm Awtistig gan ddefnyddio stori ddigidol, i gymharu gyda stori papur, wrth ddefnyddio strategaethau fel cyfathrebiad gydag oedolion, cyfoedion a modeli gwestiynau yn ystod y stori i hyrwyddo cyfranogiad gweithredol.

Wrth ystyried y strategaethau a defnyddiad gan yr ymarferwr, roedd yna ddigonedd o gwestiynu a chyfathrebiad gyda'r plant yn ystod y straeon papur a digidol.

Pwysleisiodd Vygotsky (1962) y cysylltiad â phwysigrwydd o ddatblygith gwybyddol ac iaith, ar rôl weithredol y plentyn wrth dysgu'r sgiliau hyn (Sapra, 2019, t296-297).

Cytuna Van der Wilt, van der Veen a Michaels (2022) gyda'r farn Vygotsky, gan awgrymu wrth gwestiynu plant cyn, yn ystod ac ar ôl adrodd straeon, maent yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu iaith, dysgu a defnyddio geiriau newydd ac effeithio caffael iaith mewn ffordd fuddiol.

Ychwanega Gosen (2015) i'r buddion hyn, gan nodi bod hyrwyddiad o cymesuredd rhwng cyfathrebiad ac ailadrodd digwyddiadau personol perthnasol. I gysylltu gyda'r farn Gosen, creda Bruner (1990) yn gryf bod plant yn defnyddio naratif i ddysgu a gwneud synnwyr o'r byd o'i gwmpas, a rhannu eu profiadau gyda'i chyfoedion.

Serch hynny, dadleua Chomsky (1964, p.15) a Pinker (1994, t18) bod iaith yn gynhenid a bod plant yn cael eu geni gyda dyfais caffael iaith, felly nad oes angen dysgu iaith o ysgogiad y tu allan i'r plentyn. Er gwaethaf hyn, anghytunodd Skinner (1957) yn gryf gyda'r farn hyn, a welodd dysgu iaith fel ysgogiadau ac ymateb, treial a chamgymeriad ac yn cael ei harwain gan atgyfnerthiadau cadarnhaol a negyddol.

Yn ychwanegol, awgryma Neumann a Merchant (2022) bod angen i'r ymarferwr sgaffald gwybyddol gan ofyn cwestiynau i blant yn ystod straeon digidol a phapur, i ddatblygu sgiliau iaith, ailadrodd a gwrando ar eirfa newydd. Yn ogystal â hyn, creda Neumann a Merchant bod defnyddiad o gwestiynu beta wybyddol i'r plant yn angenrheidiol i ymarferwyr hyrwyddo cyfleoedd a hyder iddynt ddarganfod ac archwilio geirfa newydd a chyfranogi mewn sgysiau dwyffordd.

Fodd bynnag, mewn astudiaeth gan Preece a Levy (2019), darganfuwyd bod rhwystir i rannu straeon rhwng rhieni/gofalwr a phlant, a chysylltiad gyda mwynhad rhieni/gofalwr a'r mwynhad y plentyn. Noda os nad oedd y rhieni/gofalwr yn teimlo bod y plentyn yn mwynhau, roedd awydd i barhau darllen gartref.

Ymhelaethodd Hutton *et al.* (2015, dyfynnwyd yn Taylor, Zubrick a Christensen, 2016) ymhellach gan fynegi wrth ddarllen a gwrando ar straeon adref, mae actifadydd uwch mewn rhanbarthau iaith a llythrennedd yr ymennydd.

Wrth ystyried y wybodaeth uchod, gellid un nodi'r absenoldeb o gwestiynu beta wybyddol o'r ymarferwr yn ystod y stori ddigidol a phapur. Felly, i wella'r ymarfer a darparu profiad llythrennedd cyfoethogech i'r plant a hyrwyddo sgiliau datrys problemau (Ciardiello, 2012), dylai cwestiynu beta wybyddol cael ei gynnwys.

Strategaeth arall wnaeth yr ymarferwr defnyddio oedd sensitifrwydd cynyddol, sef y defnyddiad o donyddiaeth, mynegiad, sain, brawddeg a chyflymder (Chung a Yang, 2022). Creda Pinker (1984, dyfynnwyd yn Zanchi *et.al.*, 2016) bod perthynas rhwng mydryddiaeth a chaffael iaith yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Cyd-darodd Vogels a Lindgren (2022), a Cekaite a Björk (2018) gyda'r ddirnadaeth Pinker, gan ddatgan wrth ddefnyddio mynegiad wrth ddarllen straeon i blant, mae datblygiad dealltwriaeth o gynrychioliadau meddyliol o'r byd o'i gwmpas, sy'n sgil ac agwedd bwysig o gaffael iaith.

Serch hynny, rhybuddia Barrett *et al.* (2019) gellir camddehongli mynegiant emosiynol digwydd, oherwydd mae emosiynau gallu gael eu mynegi gydag ystumiau a symudiadau wyneb amrywiol sy'n unigol unigryw.

Pwysleisiodd Bower (2014, t85) y pwysigrwydd o greu cyfleoedd dysgu iaith a llythrennedd cynwysedig i bob plentyn yn yr amgylchedd, ac awgryma bod un ffordd o wneud hwn oedd darparu adnoddau amrywiol o lyfrau ffeithiol, sy allu cysylltu gyda bywydau'r plentyn. Ymhellach, noda'r buddion o ddarllen dramatig, a rhannu darllen gyda'r plant i annog trafodaeth i'r cysylltiad i'r profiadau'r plentyn.

Ymhelaethodd McDonnell *et al.* (2014) ymhellach ar farnau Bower, gan ddadleu'r pwysigrwydd i ymarferwyr darparu'r plant gyda rhannu darllen, defnyddiad o gymhorthion gweledol, newid cyflymder darllen i bwysleisio gwybodaeth allweddol, ar ddefnyddiad o ddarllen dramatig, i hyrwyddo paratoi ar gyfer llythrennedd i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r barnau hyn yn cysylltu gyda'r Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau'r Plentyn (*Llywodraeth Cymru*, 2021). Noda yn erthygl 23:

“Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.”

Serch hynny, dadleua Cansiz a Cansiz (2018) bod rhwystrau o ymarferwyr i ddarparu amgylchedd cynwysedig i blant. Noda'r rhwystrau i fod yn anghenion hyfforddi penodol, diffyg hyder a phrofiad.

Gan ystyried dull darllen yr ymarferwr, gellid un cydnabod roedd iaith arwyddion yn gyfyngedig cyn dechrau'r straeon. I wella ymarfer, a sicrhau cynwysoldeb i bob plentyn, fydd yr ymarferwr yn defnyddio stondin a lyfir i sicrhau dwylo rhydd i arwyddo, ac yn ychwanegol, fydd y stori ddigidol yn cael ei arddangos ar sgrin gyffwrdd fawr i alluogi'r plant i ddysgu llythrennedd digidol (Walsh a Simpson, 2013).

Mae'r sgil hyn yn cael eu nodi yn y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (*Llywodraeth Cymru*, 2022), a'r anghenid i blant archwilio meddalwyd cyfarwydd yn yr amgylchedd dysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru (*Llywodraeth Cymru*, 2021a).

Ymhellach, awgryma Kilinc *et al.* (2017) wrth ddefnyddio strategaethau dramatig yn ystod cyfleoedd dysgu llythrennedd ac iaith, maent yn gallu hyrwyddo cydweithied a chyfranogiad gweithredol, a sicrhau bod bob plentyn yn teimlo fel aelod cymwys a gwerthfawr o'r dosbarth, trwy brosesau addysgol cynhwysol i ddysgu degoliad a dehongli testunau.

Yn olaf, wnaeth yr ymarferwyr defnyddio gweithgareddau ymarferol yn gysylltiedig gyda'r straeon ar ôl darllen, i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r llafar a dysgwyd a chadarnhau dysgu llythrennedd. Creda Kim a Bacos (2023), bod chwarae corfforol a dychmygol yn hyrwyddo llythrennedd cynnar, ysgogi dychymyg, ymgysylltu ag eraill a chefnogi adeiladu creu ystyr.

Yn debyg, datgan Burke (2019, p.27) bod chwarae yn hanfodol ar gyfer cyfathrebiad a chydweithrediad, ac i brosesu egni creadigol trwy ymdrechion ailadroddus. Mae'r barnau uchod yn cydsynio gyda'r damcaniaeth Piaget (1962, dyfynnwyd yn Burke, 2019, p.9), bod plant yn ddysgwyr gweithredol, sy'n datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth trwy gyfnodau cysylltiedig ag oedran.

Fodd bynnag, mae angen ystyried anawsterau i blant ag anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau amgylchedd cynwysedig. Datgan Greenwood (2020) y pwysigrwydd o greu amgylchedd meithrin i blant, a defnyddio arwyddion, cymorth ymarferol ac offer meddylgar i gefnogi cyfathrebiad i blant ag anawsterau llyfeydd ac iaith.

Ymhellach, awgryma Grace a Longhorn (2015, p.25) bod y defnyddiad o straeon synhwyraidd gallu cefnogi dealltwriaeth o iaith, cyfathrebiad a galluogi'r plant i ryngweithio ag ysgogiadau sy'n gysylltiedig i'r stori.

Gellid un nodi'r defnyddiad o chwarae synhwyraidd cysylltiedig i'r straeon digidol a phapur gan yr ymarferydd. Wnaeth yr ymarferydd coginio a pharatoi bwyd gyda'r plant ar ôl y stori papur, a dilyn y stori ddigidol, wnaeth yr ymarferwr mynd ar blant yn yr awyr agored i brofi uniongyrchol y tywydd roedd yn y stori. Cefnoga'r ymarfer hwn

gan Rand a Morrow (2021), gan awgrymu wrth i blant chwarae trwy weithgareddau cysylltiedig ar ôl darllen straeon, roedd hyrwyddiad o gydnabyddiaeth o eiriau targed, mwy o eirfa a chaffael iaith.

Ymhellach, pwysleisia Wohlwend (2023) y pwysigrwydd o uno geirfa newydd a chysylltiadau cyfoethog gyda phrofiadau bywyd, i wreiddio iaith mewn gweithrediad, atgofion a theimladau. Creda Wohlwend wrth i blant profi'r fath o chwarae hyn, fyddant yn ymchwilio iaith trwy lefelau profiad.

Serch hynny, dadleua Colvert (2020), wrth i blant tyfu lan yn yr oes ddigidol, ar hyn o bryd does dim digon o ddamcaniaethau neu ymchwil i gefnogi'r defnyddiad o chwarae digidol fel ymarfer llythrennedd, i addysgwyr integreiddio'r chwarae hwn yn eu hymarfer. Ymhellach, dadleua Smee (2019) bod yr oes ddigidol wedi newid ffordd mae plant yn chwarae, a chreda bod technoleg yn dechrau cael gwared â dyfeisgarwch plant oherwydd yr argaeledd ar unwaith o gemau digidol.

I grynhoi, wrth ystyried y wybodaeth, damcaniaethau a thystiolaeth wedi'i dadansoddi, mae yna ddadl gref tuag at y pwysigrwydd o ddarllen i blant yn y blynyddoedd cynnar, ar ddatblygiad o sgiliau llythrennedd, iaith a chyfathrebiad.

Wrth ystyried arfer dyfodol, gellid nodi bod cymhwysedd digidol wedi'i danategu drwyddi draw'r Cwricwlwm i Gymru, i baratoi plant ar gyfer yr oes ddigidol.

Ymhellach, mae'n bwysig nodi bod bob plentyn yn wahanol ac mae anawsterau sy allu effeithio beth sy'n gweithio'r ffordd gorau i'r plentyn. I orffen, gellid un nodi bod y datblygiad o iaith a lleferydd yn hollbwysig i'r datblygiad cyfannol y plentyn, o'r groth drwy gydol eu bywydau.

Rhestr Gyfeirio

Barrett, L.F. *et al.* (2019) 'Emotional Expressions Reconsidered: Challenges to Inferring Emotion From Human Facial Movements', *Psychological science in the public interest*, 20(1), tt. 1–68. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1177/1529100619832930>

Beech, J.R. (2005) 'Ehri's model of phases of learning to read: a brief critique', *Journal of research in reading*, 28(1), tt. 50–58. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1111/j.1467-9817.2005.00252.x>

Belda-Medina, J. (2022) 'Promoting inclusiveness, creativity and critical thinking through digital storytelling among EFL teacher candidates', *International journal of inclusive education*, 26(2), tt. 109–123. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1080/13603116.2021.2011440>

Bower, V. (ed.) (2014) *Developing early literacy 0 to 8 : from theory to practice*. London: SAGE.

Bowlby J. (1969). *Attachment and loss: Volume 1. Attachment*. New York: Basic Books.

Bruner, J. (1990). *Acts of meaning*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

Burke, A.M. (2019) *Invitations to play : using play to build literacy skills in young learners*. Markham, Ontario: Pembroke Publishers Limited.

Cansiz, M. and Cansiz, N. (2018) 'Sentiments, Attitudes, and Concerns about Inclusion: Early Years in Teacher Education Programs', *Erzincan Üniversitesi Eğitim Fakültesi Dergisi*, 20(1), tt. 167–183. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.17556/erziefd.332434>

Cekaite, A. and Björk-Willén, P. (2018) 'Enchantment in storytelling: Co-operation and participation in children's aesthetic experience', *Linguistics and education*, 48, tt. 52–60. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1016/j.linged.2018.08.005>

Chomsky, N. (1957) *Syntactic structures*. The Hague: Mouton.

Chomsky, N. (1964) *ASPECTS OF THE THEORY OF SYNTAX*.

Chung, W. and Yang, H. (2022) 'The relationship between oral language and storytelling prosody in preschool children', *Infant and child development*, 31(4). Ar gael yn: <https://doi.org/10.1002/icd.2329>

Ciardiello, A.V. (2012) 'Did you ask a good common core question today? The cognitive and metacognitive dimensions of enhanced inquiry skills.(Core standards)', *Reading Today*, 30(3), t. 14–.

Cline, K.D., Dimmitt, E. and Gann, M. (2022) 'Books before birth: a qualitative multiple case study of mothers reading to babies in utero', *Journal of reproductive and infant psychology, ahead-of-print(ahead-of-print)*, tt. 1–14. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/02646838.2022.2077922>

Colvert, A. (2020) 'Presenting a new hybrid model of ludic authorship: reconceptualising digital play as “three-dimensional” literacy practice', *Cambridge journal of education*, 50(2), tt. 145–165. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/0305764X.2019.1660307>

Donaldson, G. (2015) *Successful futures- Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales*. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures.pdf> (Cyrchwyd 23 Hydref 2023)

Earthpen (2022) *Maslow's Hierarchy of Needs*. Ar gael yn: <https://youtu.be/U0NdoER80k4?si=Epl7wWdBz-O6CESb> (Cyrchwyd 20 Hydref 2023)

Estyn (Dim dyddiad) *Inspecting Literacy*. Ar gael yn <https://www.estyn.gov.wales/document-page/20538/contents/guidance/inspecting-literacy> (Cyrchwyd 20 Hydref 2023)

Frith, U. (1985) ' In K. E. Patterson, J. C. Marshall & M. Coltheart (eds), *Surface Dyslexia*, tt. 301–30. Hillsdale, NJ: Erlbaum.

Furenes, M.I., Kucirkova, N. and Bus, A.G. (2021) 'A Comparison of Children's Reading on Paper Versus Screen: A Meta-Analysis', *Review of educational research*, 91(4), tt. 483–517. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3102/0034654321998074>

Gosen, M.N. (2015) 'Teachers' orientation to kindergartners' different interactional competences: Telling personal experiences during shared readings of picture books', *Novitas-ROYAL*, 9(2), t. 138–.

Grace, J. and Longhorn, F. (2015) *Sensory stories for children and teens with special educational needs: a practical guide*. London: Jessica Kingsley Publishers.

Greenwood, A. (2020) *Understanding, nurturing and working effectively with vulnerable children in schools: 'why can't you hear me?'* Abingdon: Routledge.

Hutton, J. S., Horowitz-Kraus, T., Mendelsohn, A. L., DeWitt, T., & Holland, S. K. (2015). Home reading environment and brain activation in preschool children listening to stories. *Paediatrics*. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1542/peds.2015-0359>

Kilinc, S., Farrand, K., Chapman, K., Kelley, M., Millinger, J., Adams, K. (2017) 'Expanding opportunities to learn to support inclusive education through drama-enhanced literacy practices', *British journal of special education*, 44(4), tt. 431–447. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1111/1467-8578.12186>

Kim, S.J. and Bacos, C.A. (2023) 'Wearable stories for children: embodied learning through pretend and physical play', *Interactive learning environments*, 31(1), tt. 129–141. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/10494820.2020.1764979>

Lariviere, J., Erdos, C. and Ferdinand, J.-M. (2017) 'Literacy promotion at the Montreal Children's Hospital', *Paediatrics & child health*, 22(2), tt. 92–93. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1093/pch/pxx029>

Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050- A million Welsh speakers*. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-welsh-language-strategy.pdf> (Cyrchwyd 23 Hydref 2023)

Llywodraeth Cymru (2021) *Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau'r Plentyn*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/poster-crynodeb-uncrc.pdf> (Cyrchwyd 15 Hydref 2023)

Llywodraeth Cymru (2021a) *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/> (Cyrchwyd 17 Hydref)

Llywodraeth Cymru (2021b) *Iaith, Llythrennedd a Cyfathrebiad*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/> (Cyrchwyd 20 Hydref 2023)

Llywodraeth Cymru (2022) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-sgiliau-trawsgwricwlaidd/fframwaith-cymhwysedd-digidol> (Cyrchwyd 17 Hydref)

Llywodraeth Cymru (2023) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-sgiliau-trawsgwricwlaidd/fframwaith-cymhwysedd-digidol> (Cyrchwyd 7 Hydref 2023)

Marble-Flint, K.J., Strattman, K.H. and Schommer-Aikins, M.A. (2021) 'Comprehension Scores Among Young Neurotypical Children and Children With Autism: Paper and iPad® Storybooks', *Journal of special education technology*, 36(4), tt. 311–320. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/0162643420924197>

Massaro, D.W. (2017) 'Reading Aloud to Children: Benefits and Implications for Acquiring Literacy Before Schooling Begins', *The American journal of psychology*, 130(1), tt. 63–72. Ar gael yn: <https://doi.org/10.5406/amerjpsyc.130.1.0063>

Maureen, I.Y., van der Meij, H. and de Jong, T. (2018) 'Supporting Literacy and Digital Literacy Development in Early Childhood Education Using Storytelling Activities', *International journal of early childhood*, 50(3), tt. 371–389. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/s13158-018-0230-z>

McDonnell, A.P., Andrea, P., Hawken, Leanne, S., Johnston, Susan, S., Kidder, Jaimee, E., Lynes, Marjorie, J., McDonnell, John, J. (2014) 'Emergent Literacy Practices and Support for Children with Disabilities: A National Survey', *Education & treatment of children*, 37(3), tt. 495–529. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1353/etc.2014.0024>

McGraw, M.L. (2022) 'Inclusive Practices in Special Education: Language and Literacies', *Teaching exceptional children*, 54(5), t 6. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/00400599211025554>

McMurray, S. and Thompson, R. (2016) 'ISSUES IN INCLUSION AND INDIVIDUAL LEARNING NEEDS LEARNING TO READ', *Journal of research in special*

educational needs, 16(S1), tt. 679–683. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1111/1471-3802.12200>

National Literacy Trust (2020) *Reading to children is so powerful, so simple and so misunderstood*. Ar gael yn: <https://literacytrust.org.uk/blog/reading-children-so-powerful-so-simple-and-yet-so-misunderstood/> (Cyrchwyd 20 Hydref 2023)

Nazurty, R. *et al.* (2019) 'Learning Strategies in Reading: The Case of Indonesian Language Education Student Teachers', *Universal Journal of Educational Research*, 7(11), tt. 2536-2543

Neumann, M.M. and Merchant, G. (2022) "'That's a Big Bad Wolf!': Learning through Teacher-Child Talk During Shared Reading of a Story Book App', *Early childhood education journal*, 50(3), tt. 515–525. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/s10643-021-01171-8>

Piaget, J. (1962) *Play, dreams and imitation in childhood*. New York: Norton.

Pichère, P. and Cadiat, A.-C. (2015) *Maslow's hierarchy of needs*. Translated by C. Probert. Namur: Lemaitre Publishing.

Pinker, S. (1984). *Language learnability and language development*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

Pinker, S. (1994) *The language instinct: The new science of language and mind*. New York: Penguin.

Preece, J. and Levy, R. (2019) 'Understanding the barriers and motivations to shared reading with young children: The role of enjoyment and feedback'.

Rabinowitz, S. *et al.* (2021) 'I Feel Less Blue When I Read With You: The Effect of Reading Aloud With a Child on Adult Readers' Affect', *Frontiers in psychology*, 12. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3389/fpsyg.2021.706729>

Rand, M. K., & Morrow, L. M. (2021). The contribution of play experiences in early literacy: Expanding the science of reading. *Reaching Research Quarterly*, 56(S1), tt. 239–248. Ar gael yn: <https://doi-org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/10.1002/rrq.383>

Sapra, R. (2019) 'Conceptual development in children: Implications for education', *International journal of education and management studies*, 9(4), tt. 296–297.

Senedd Wales (2018) *Lack of resources could have real impact on pupils' education in Wales, says National Assembly committee*. Ar gael yn:

<https://senedd.wales/senedd-now/news/lack-of-resources-could-have-real-impact-on-pupils-education-in-wales-says-national-assembly-committee/> (Cyrchwyd 23 Hydref 2023)

Siegel, D.J. (2020) *The developing mind how relationships and the brain interact to shape who we are*. Third edition. New York, NY: The Guilford Press, a division of Guilford Publications, Inc.

Skinner, B. (1957) *Verbal behavior*. New York: Appleton-Century-Crofts, Inc.

Smee, S. (2019) 'Kids used to make up their own games; now the games play them', *The Washington post*.

Son, S. C., Butcher, K. R., & Liang, L. A. (2020). The influence of the interactivity of storybook apps on children's reading comprehension and story enjoyment. *Elementary School Journal*. <https://doi.org/10.1086/707009>

Sparks, R.L., Patton, J. and Murdoch, A. (2014) 'Early reading success and its relationship to reading achievement and reading volume: replication of "10 years later"', *Reading & writing*, 27(1), tt. 189–211. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/s11145-013-9439-2>

Swanson, E. *et al.* (2011) 'A Synthesis of Read-Aloud Interventions on Early Reading Outcomes Among Preschool Through Third Graders at Risk for Reading Difficulties', *Journal of learning disabilities*, 44(3), tt. 258–275. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/0022219410378444>

Taylor, C.L., Zubrick, S.R. and Christensen, D. (2016) 'Barriers to Parent–Child Book Reading in Early Childhood', *International journal of early childhood*, 48(3), tt. 295–309. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/s13158-016-0172-2>

van der Wilt, F., van der Veen, C. and Michaels, S. (2022) 'The relation between the questions teachers ask and children's language competence', *The Journal of educational research (Washington, D.C.)*, 115(1), tt. 64–74. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/00220671.2022.2029806>

Vogels, J. and Lindgren, J. (2022) 'The Development of Referring Expression Use from Age 4 to 7 in Swedish-Speaking Children', *Discourse processes*, 59(9), tt. 722–744. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/0163853X.2022.2132794>

Vygotsky, L. (1962). *Thought and language*. Massachusetts Cambridge: M.I.T press.

Walsh, M. and Simpson, A. (2013) 'Touching, tapping ...thinking? Examining the dynamic materiality of touch pad devices for literacy learning', *The Australian journal of language and literacy*, 36(3), tt. 148–157. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1007/BF03651921>

Whiting, K. (2017) 'From singing a lullaby to reading aloud ...easy ways to bond with baby before birth: From playing music to telling them about your day, there's many beneficial interactions with the little one growing inside you, writes Kate Whiting', *Belfast telegraph*.

Wilson-Ali, N. and Knaus, M. (2019) 'Multiple perspectives on attachment theory : Investigating educators' knowledge and understanding', *Australasian journal of early childhood*, 44(3), tt. 215–229. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/1836939119855214>

Wohlwend, K. (2023) 'Serious Play for Serious Times: Recentring Play in Early Literacy Classrooms', *The Reading teacher*, 76(4), tt. 478–486. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1002/trtr.2157>

Zanchi, P., Zampini, L., D'Odorico, L. (2016) 'Syntax and prosody in narratives: A study of preschool children', *First language*, 36(2), tt. 124–139. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1177/0142723716639500>